



Syniadau A.G.

Tymor yr Hydref 2007

Pris £1.00

Eluned Jones, Llanfechell, Ynys Môn

Addysg Grefyddol a Byd Gwaith

Rhifyn 1: Cyfnod Sylfaen

Mae gyrrfa plentyn yn cychwyn o'r adeg pan mae'n cael ei eni ac yn parhau drwy gydol ei oes. Pan mae plant yn dechrau ar hyd llwybr addysg, yn ystod y Cyfnod Sylfaen, maent yn datblygu'n gyflym fel personoliaethau. Bydd yr hyn a gyflwynir iddynt yn ystod y cyfnod yma yn effeithio ar eu penderfyniadau a'u dewisiadau yn nes ymlaen yn ystod eu bywydau.

Dysgu a deall mwy amdanynt eu hunain - eu hoffterau, eu cas bethau a'u teimladau
Mewn sesiwn amser cylch, mae cyfle i drafod:

'Rydw i'n dda am

'Hoffwn gael mwy o gymorth i.....'

'Dydw i ddim yn hoffi gwneud.....'

Dylid eu hannog i feddwl am hyn o fewn eu perthynas ag eraill hefyd.

Gellir cyflwyno Byd Gwaith iddynt drwy sefyllfaoedd sydd eisoes yn rhan o'u bywydau bob dydd. Beth am ddechrau gyda'r lle sy'n fwyaf cyfarwydd iddynt?

Yn y Cartref



- Pwy sy'n gyfrifol am?:**
- Wneud y bwyd
 - Gosod y bwrdd
 - Golchi llestri
 - Tacluso
 - Garddio
 - Golchi'r car



Defnyddio cyfres o luniau i ysgogi trafodaeth, a rhoi cyfle i chwarae rôl

Ydynt hwy yn gwneud rhywbeth i helpu? e.e. tacluso eu hystafell, gosod y bwrdd, rhoi dŵr i'r blodau. Dyma gyfle i ddechrau cyflwyno'r syniad o dderbyn cyfrifoldebau.



Efallai fod rhai o'r cyfrifoldebau yma yn ymwneud â defodau ac arferion crefyddol y teulu.
 Gall hyn fod ar adegau arbennig megis dathliadau e.e. Y Nadolig, Shabbatt
 neu rhywbeth sy'n digwydd yn ddyddiol
 e.e. addoli yn y cartref



Pobl yn eu gwaith bob dydd.

Cyflwyno geirfa byd gwaith - swydd, gyrafa, gwaith, cyflog, gweithle
 Pam mae pobl yn yn gweithio?
 Lle mae pobl yn gweithio?
 Ydy pobl yn gweithio ar ben eu hunain, neu mewn timau?



Mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain

Beth fyddent hwy yn hoffi ei wneud wedi iddynt dyfu i fyny?
 Daw yn amlwg y bydd dychymyg yn eu harwain i feddwl am
 bob math o swyddi, ac y byddant yn gallu siarad am eu gobeithion a'u
 breuddwydion

Yn y Cylch Meithrin neu'r Ysgol

Wrth wneud arsylwadau a gwrando ar bobl sydd o'u cwmpas bob dydd, byddant yn gallu disgrifio'r hyn a ddarganfuon a chynnig esboriadau syml.

Pwy sy'n gweithio yno?

Beth maent yn ei wneud?

Pam mae angen iddynt fod yno?

Yn y Gymuned

Mae modd cyflwyno yr amrywiaeth o swyddi sy'n bodoli drwy ddefnyddio teganau ac offer chwarae sydd yn yr ysgol yn barod.

Un cwmni sy'n arbenigwyr ar gynhyrchu teganau addysgol i'r Blynnyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen yw Tuska Toys - www.tuska.co.uk



Mae ganddynt pypedau llaw a bys, darnau ffelt, a maneg ddysgu i drafod gwahanol rôl pobl sy'n gweithio o'n cwmpas; a theganau i drafod pobl sy'n ein helpu e.e. ambiwlans, clinic, Gorsaf dân. Byddai Matiau Chwarae yn helpu i weld yn lle mae pobl yn gweithio. Mae'r deunyddiau yma yn ysgogiad gwych hefyd i godi ymwybyddiaeth y plant o Gyfle Cyfartal ac Amrywiaeth yn y gymdeithas. Dylid eu hysgogi i lunio eu hymatebion personol fydd yn eu galluogi i herio'r syniad o rolau traddodiadol a stereoteipio, a gweld angen i roi cyfle teg i bawb.

Safle arall i ddarganfod deunyddiau addas yw www.primaryresources.co.uk, adran A.B.Ch.

Ar www.ngfl-cymru.co.uk mae Uned 'Pobl Sy'n ein Helpu' yn edrych ar y Ganolfan Waith.

Mae cyfle i ddod i adnabod teitlau swyddi, adnabod sut mae pobl gyda swyddi gwahanol yn ein cefnogi yn y gymuned, ac adnabod y bobl mae ein cymuned yn eu gwerthfawrogi fwyaf. Beth fyddai'n digwydd i'r gymuned hebddynt?

Mae'n rhoi cyfle i'r plant ddatblygu sgiliau meddwl e.e. meddwl am achos ac effaith a dod i gasgliadau



Drwy gymryd rhan mewn gwahanol fathau o chwarae, yn cynnwys sefyllfaoedd wedi eu cynllunio neu rai a gychwynnir gan y plant a rhai sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol, byddant yn gallu rhoi eu hymatebion personol i pam y bydd pobl yn helpu eraill.

Wedi clywed storïau am bobl megis Florence Nightingale a Betsi Cadwaladr, byddant yn gallu trafod y rhinweddau sydd eu hangen i fod yn nyrs dda.



Efallai bod modd gwahodd dyn neu ddynes sy'n gweithio fel nyrs yn y gymuned neu yn yr ysbyty i ddod i siarad gyda'r plant.

Wedi iddynt gynllunio o flaen llaw a meddwl am gwestiynau i'w gofyn, byddant yn gallu myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd, a darganfod mwy am y rhesymau pam y bydd pobl yn dewis gyrfaoedd lle gallant helpu eraill yn eu gwaith.

Gallai ymweliad â'r Bad Achub lleol ddangos sut mae rhai pobl yn barod i beryglu eu bywydau eu hunain er mwyn achub eraill.

Nid yw pobl bob tro yn cael tâl am wneud swyddi tebyg i hyn. Pam mae pobl yn gwirfoddoli? Pwy sydd wedi dylanwadu arnynt? Beth sy'n eu hysbrydoli i wneud y gwaith?

Yr Amgylchedd

Mae gweithgareddau yng ngardd yr ysgol yn gyfle i'r plant ddangos gofal, pryder a pharch at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. Drwy wneud tasgau penodol yn yr ardd dan arweiniad staff yr ysgol neu arddwyr proffesiynol, byddant yn dechrau darganfod rhyfeddod y byd naturiol a chymryd cyfrifoldeb am ei ddiogelu.



Os oes anifeiliaid anwes yn yr ysgol, neu bod rhai o'r plant yn dod â rhai eu hunain i mewn, efallai y byddai modd gwahodd milfeddyg neu nyrs filfeddygol i ddod i'r dosbarth i sôn am sut i ofalu amdanynt.

Byddai hanes Ffransis o Assisi a Melangell yn gyfle i ddangos sut mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl, a'u ffordd o edrych ar y byd o'u cwmpas. Oes pobl yn y gymuned leol sy'n cael eu harwain gan eu cred a'u profiadau ysbrydol?

Byd adloniant a chwaraeon

Gan y bydd nifer fawr o'r disgylion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau torfol megis chwarae peldroed, rygbi, dawnsio a chanu tu allan i oriau ysgol, dyma gyfle i drafod y bobl sy'n eu helpu i ddatblygu eu talentau a'u paratoi i gymryd rhan weithredol yn y gymuned yn y dyfodol. Cânt fynegi eu teimladau, drwy drafod eu harwyr a cheisio efelychu eu campau, a dathlu eu llwyddiant eu hunain.

Mudiadau Elusennol megis Oxfam, Cymorth Cristnogol, World Wildlife Fund

Wrth drefnu gweithgareddau codi arian yn yr ysgol, a gwahodd gweithwyr o'r gwahanol elusennau i'r dosbarth, caiff y plant brofiadau uniongyrchol o helpu eraill; nid yn unig yn eu cymuned leol, ond mewn cyd-destun byd-eang

Arweinwyr Crefyddol

Pwy ydynt?

Lle maent yn gweithio?

- Chwarae gêm gardiau, gyda lluniau, geiriau a symbolau crefyddol.
- Dangos artefactau
- Ymweld ag addoldai
- Sgwrsio gydag ymwelwyr â'r dosbarth

Oes ganddynt wisg arbennig?



Cydnabod a gwerthfawrogi sut mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl, a'u harwain yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais ar yr ysbrydol a phrofiadau crefyddol



Stori Mari Jones a'i Beibl - sut y dylanwadodd hynny ar Thomas Charles, a'i arwain i helpu sefydlu Cymdeithas y Beiblau?

Y Fam Theresa - sut y bu iddi ddewis gweithio gyda'r tlodion ar strydoedd Calcutta.



Ydy ei hanes wedi dylanwadu ar eraill yn y gymuned heddiw?

Iesu Grist fel Arweinydd

Mae nifer o lyfrau storïau Beiblaidd syml i blant ar gael e.e.

Y Saer Addfwyn

Iesu a'r Pysgotwyr

Iesu yn Iachau

Merch Fach Jairus - Enid Blyton/Linda Lockley, Cyhoeddiadau'r Gair

Iachau'r cleifion - bydd y straeon yma yn gymorth iddynt ddeall sut mae hanes Iesu Grist wedi dylanwadu ar bobl yn y gorffennol a'r presennol, a'u galluogi i fynegi empatfi ysbrydol/moesol dyfnach at bobl eraill yn eu gwaith bob dydd.

Swyddi pobl yn amser Iesu Grist - pysgotwyr, ffermwyr, casglwyr trethi, saer coed. Byddai'n ddiddorol i'r plant weld faint o'r swyddi sy'n bodoli heddiw, a sut maent wedi newid.

Llwyddodd Iesu Grist i ddysgu'r bobl mewn ffordd syml, hawdd i'w ddeall drwy sôn am bobl wrth eu gwaith. Mae rhai o'r damhegion wedi eu symleiddio a'u diweddu ar gyfer plant heddiw.

Drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau uchod, gobeithio y bydd y plant wedi cael profiadau sy'n gysylltiedig â 'Phobl, credoau a chwestiynau' fydd yn hybu eu datblygiad ysbrydol a moesol; ac y byddant yn dechrau deall fod pobl yn gorfol gwneud penderfyniadau yn eu gwaith bob dydd sydd yn gallu effeithio ar y gymuned gyfan.

Bydd Rhifyn 2 (Tymor y Gwanwyn 2008) yn edrych ar Addysg Grefyddol a Byd Gwaith yng Nghyfnod Allweddol 2.

ADNODDAU MAGC (*Mudiad Addysg Grefyddol Cymru*)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o 'Syniadau AG' ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - Pobl Arbennig – mewn ffydd a gweithred ; Adegau Arbennig;

Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr;

Mannau Arbennig – Eu harwyddocad i gredinwyr

Cyhoeddiadau Uwchradd – What the Welsh Churches say on moral and social issues;

Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.

Cyffredinol: More than Just RE (CEMW Annual Lectures)

Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH

SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk